DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Nodiadau

Gwneud cais am Lwfans Gweini ar gyfer pobl 65 oed neu'n hŷn.

Cynnwys

	Tudalen
Beth yw Lwfans Gweini?	3
A allaf gael Lwfans Gweini?	3
Beth yw ystyr ‘help gyda gofal personol’ a ‘goruchwylio’?	4
Pryd gallaf wneud cais am Lwfans Gweini?	5
Sut y caiff Lwfans Gweini ei weithio allan?	5
Os hoffech gael help i gwblhau'r ffurflen gais neu unrhyw ran ohoni	6
Sut mae eich anableddau'n effeithio arnoch	6
Archwiliadau meddygol	7
Help gyda chwestiynau yn y ffurflen gais	7
Rheolau arbennig	8
Y cymhorthion a'r addasiadau rydych yn eu defnyddio	9
Bod mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg	9
Sut y byddwn yn eich talu	10
Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth	10
Help a chyngor am fudd-daliadau eraill	11 i 12

Beth yw Lwfans Gweini?

Arian i'ch helpu gyda chostau ychwanegol yw Lwfans Gweini os oes gennych anabledd sy'n ddigon difrifol fel bod angen help rhywun arnoch i ofalu amdanoch ac rydych yn 65 oed neu'n hŷn pan fyddwch yn gwneud cais.

Os ydych o dan 65 oed, efallai gallwch gael Lwfans Byw i'r Anabl yn lle hynny. Cysylltwch â'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau os ydych am ein holi am Lwfans Byw i'r Anabl (gweler **Help a chyngor am fudd-daliadau eraill** ar dudalen 11).

Efallai na fyddwch yn ystyried eich bod yn anabl, ond os oes gennych gyflwr iechyd neu salwch sy'n golygu bod angen y math o help rydym yn sôn amdanynt yn y nodiadau hyn arnoch, efallai y gallwch gael Lwfans Gweini.

Gall eich anabledd fod yn gorfforol, neu efallai y bydd gennych broblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, anawsterau gyda'ch golwg, clyw neu leferydd.

- Ni effeithir ar Lwfans Gweini gan eich incwm neu'ch cynilion fel arfer (ond, os ydych yn cael Lwfans Gweini Cyson gyda budd-dal arall, caiff hwn ei dalu yn lle, neu bydd yn lleihau swm eich Lwfans Gweini).
- Ni ddidynnir Lwfans Gweini oddi ar fudd-daliadau eraill a chredydau treth eraill y gallech fod yn eu cael.
- Gallwch wneud cais am Lwfans Gweini hyd yn oed os nad ydych wedi talu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Nid oes rhaid i chi dalu treth ar y Lwfans Gweini a gewch.
- Os byddwch yn cael Lwfans Gweini, efallai y cewch arian ychwanegol gyda budd-daliadau eraill (gweler tudalen 11).

A allaf gael Lwfans Gweini?

Gallech gael Lwfans Gweini os:

- ydych yn 65 oed neu'n hŷn pan fyddwch yn gwneud eich cais
- nid oes hawl gennych i gael Lwfans Byw i'r Anabl
- mae eich anabledd yn golygu bod angen help arnoch gyda'ch gofal personol (gweler tudalen 4) neu mae angen rhywun arnoch i'ch goruchwylio er mwyn eich diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun arall (gweler tudalen 4), ac
- rydych wedi bod angen yr help hwn am o leiaf chwe mis.

Gallwch gael Lwfans Gweini hyd yn oed os nad ydych yn cael yr help sydd ei angen arnoch.

Beth yw ystyr ‘help gyda gofal personol’ a ‘goruchwylio’?

Ystyr **‘Help gyda gofal personol’** yw help gyda phethau o ddydd i ddydd fel:

- ymolchi (neu fynd i'r bath neu gawod neu ddod allan ohono/ohoni)
- gwisgo
- bwyta
- cyrraedd neu ddefnyddio'r toiled, neu
- dweud wrth bobl yr hyn sydd ei angen arnoch neu wneud iddynt eich deall (os oes gennych broblem, fel anawsterau dysgu, sy'n gwneud hynny'n anodd).

Ystyr **‘goruchwylio’** yw bod angen rhywun arnoch i ofalu amdanoch er mwyn osgoi niwed sylweddol i chi eich hun neu bobl eraill. Gallai hyn olygu:

- pan fyddwch yn cymryd meddyginiaethau neu'n cael triniaeth
- eich cadw rhag perygl nad ydych yn ymwybodol ohono
- osgoi perygl y gallech ei wynebu oherwydd na allwch reoli'r ffordd rydych chi'n ymddwyn, ac
- eich atal rhag niweidio eich hun neu bobl eraill.

Efallai fod angen help arnoch gyda gofal personol neu oruchwyliaeth oherwydd:

- ei bod yn anodd i chi symud eich breichiau neu goesau neu nad oes gennych reolaeth drostynt
- gallwch fynd yn fyr eich anadl yn hawdd neu rydych mewn poen, neu
- mae gennych anawsterau ymddygiad, problemau iechyd meddwl neu rydych yn drysu.

Pryd gallaf wneud cais am Lwfans Gweini?

Dim ond os bu angen help arnoch am chwe mis y gallwch gael Lwfans Gweini fel arfer (oni bai eich bod yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig – gweler tudalen 8). Os byddwch yn gwneud cais ar unwaith, gallwch ymdrin â'ch cais cyn gynted â phosibl.

Sut y caiff Lwfans Gweini ei weithio allan?

Ceir dwy gyfradd o Lwfans Gweini:

- cyfradd is, a
- cyfradd uwch.

Mae'r gyfradd y gallech ei chael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen arnoch.

Cyfradd is Lwfans Gweini

Gallech gael cyfradd is Lwfans Gweini os oes angen y canlynol arnoch:

- help gyda gofal personol yn rheolaidd drwy gydol y dydd
- help gyda gofal personol yn ystod y nos
- rhywun i'ch goruchwylio'n barhaus drwy gydol y dydd er mwyn osgoi perygl sylweddol
- rhywun i ofalu amdanoch yn ystod y nos er mwyn osgoi perygl sylweddol, neu
- rhywun i fod gyda chi pan fyddwch yn cael dialysis.

Cyfradd uwch Lwfans Gweini

Gallech gael y gyfradd uwch os oes angen y canlynol arnoch:

- help gyda gofal personol neu rywun i'ch goruchwylio drwy gydol y dydd ac yn ystod y nos hefyd.

Efallai y gallwch ei gael hefyd os byddwch yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig (gweler tudalen 8).

Ceir symiau sefydlog o arian ar gyfer Lwfans Gweini. Gallwch gael y cyfraddau cyfredol yn y daflen o'r enw **Cyfraddau Budd-daliadau a Phensiynau.** Gallwch gael y daflen hon o unrhyw Ganolfan Byd Gwaith.

Gellir gweld y cyfraddau ar y wefan hefyd yn **www.direct.gov.uk/disability**

Os hoffech gael help i gwblhau'r ffurflen gais neu unrhyw ran ohoni

Os oes angen help arnoch, gallwch ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau i bobl ag anableddau a gofalwyr.

Y rhif ffôn yw **0800 88 22 00.**

Mae'r llinellau ar agor o 8.30am tan 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9am tan 1pm ar ddydd Sadwrn.

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 24 33 55.** Gallwch hefyd ddefnyddio Typetalk.

Efallai y bydd angen i'r person y byddwch yn siarad ag ef drefnu i rywun eich ffonio'n ôl. Bydd y person a fydd yn eich ffonio yn ôl wedi cael ei hyfforddi'n arbennig i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen hon. Bydd ganddo gopi o'r ffurflen gais a bydd yn mynd drwyddi gyda chi dros y ffôn. Neu gall gwblhau ffurflen gais ar eich rhan.

Os bydd yn cwblhau'r ffurflen gais ar eich rhan, bydd yn ei hanfon atoch. Yna gallwch ddarllen drosti, ei llofnodi a'i dychwelyd. Bydd yn anfon amlen ymateb atoch. Nid oes angen stamp arni.

Os na allwch ddefnyddio'r ffôn, gallwn anfon rhywun i ymweld â chi. Ysgrifennwch i'r swyddfa sy'n delio gyda'r ardal ple rdych yn byw. Os cewch ymweliad, gall gymryd mwy o amser i ni ymdrin â'ch cais.

Sut mae eich anableddau'n effeithio arnoch

Efallai na fyddwch yn ystyried eich bod yn anabl, ond os oes gennych gyflwr iechyd neu salwch sy'n golygu bod angen y math o help rydym yn sôn amdanynt yn y nodiadau hyn arnoch, efallai y gallwch gael Lwfans Gweini.

Gwyddom y gall anableddau effeithio ar bobl fwy ar un diwrnod nag ar ddiwrnod arall - cânt ddiwrnodau da a diwrnodau drwg. Gwyddom y gall eich anabledd amrywio dros gyfnod o amser. Ceisiwch ddweud cymaint ag y gallwch wrthym am sut mae'ch anabledd yn amrywio.

Gwyddom hefyd y gall yr help sydd ei angen yn ystod y dydd a'r help sydd ei angen yn ystod y nos fod yn wahanol. Mae cwestiynau ar wahân i chi ddweud wrthym am y gwahanol fath o help y gallai fod ei angen arnoch.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gadw cofnod o'ch anghenion. Ceisiwch restru'r holl adegau pan fu angen help arnoch gan rywun arall neu pan gawsoch anhawster wrth wneud rhywbeth gan nad oedd unrhyw un yno i'ch helpu. Os yw eich cyflwr yn amrywio, efallai y byddwch am gadw cofnod o'ch anghenion dros ddiwrnod da a diwrnod drwg. Dechreuwch o'r amser y byddwch yn codi yn y bore, drwy 24 awr, i'r amser y byddwch yn codi'r bore canlynol. Gallwch anfon y cofnod hwn gyda'ch ffurflen gais os ydych yn dymuno.

Archwiliadau meddygol

Os na fyddwn yn gallu cael darlun clir o sut mae eich salwch neu anableddau yn effeithio arnoch, efallai y byddwn yn gofyn i weithiwr gofal iechyd proffesiynol roi archwiliad i chi.

Mae Gwasanaethau Meddygol yn trefnu archwiliadau meddygol ar ein rhan. Bydd y Gwasanaethau Meddygol yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad. Os ydych am gael dehonglydd neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol o'r un rhyw â chi, dylech ofyn i'r Gwasanaethau Meddygol am hyn pan fyddant yn cysylltu â chi. Byddant yn ei drefnu i chi, os yw'n bosibl.

Ar ôl eich archwiliad meddygol, bydd y Gwasanaethau Meddygol yn anfon copi o'r adroddiad atom. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad hwn pan fyddwn yn gwneud penderfyniad ar eich cais. Os ydych am weld yr adroddiad, gofynnwch i'r swyddfa sy'n delio â'ch cais am gopi.

Help gyda chwestiynau yn y ffurflen gais

8 A ydych yn byw ym Mhrydain Fawr fel arfer?

Fel arfer, rhaid i chi fod yn byw ym Mhrydain Fawr, ac wedi bod yn byw yno am 26 wythnos yn y 52 wythnos diwethaf cyn i chi wneud cais. Ystyr Prydain Fawr yw Cymru, Lloegr a'r Alban.

Efallai gall amser a dreuliwyd mewn gwlad sy'n rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, gael ei drin fel bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr at ddibenion y rheol 26 wythnos.

Nid yw'r rheol 26 wythnos yn briodol os oes gennych salwch terfynol ac rydych yn gymwys o dan reolau arbennig.

15 Eich meddyg teulu

Nid yw eich meddyg yn penderfynu p'un a allwch gael Lwfans Gweini.

Efallai y byddwch yn gofyn i'ch meddyg am ragor o wybodaeth am eich cyflwr. Dim ond manylion o'r ffeithiau meddygol y byddwn yn gofyn i'ch meddyg eu rhoi. Nid oes angen iddo roi barn am broblemau y gallai fod gennych gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd neu a ydych yn cael Lwfans Gweini.

17 Rheolau arbennig

Mae gennym drefniadau a elwir yn rheolau arbennig sydd yn helpu pobl sydd â salwch terfynol i gael eu budd-dal cyn gynted â phosibl. Mae'r rheolau arbennig ar gyfer pobl sy'n dioddef o glefyd cynyddol ac nad oes disgwyl iddynt fyw yn hirach na chwe mis.

Er mwyn i ni allu delio â'ch cais cyn gynted â phosibl, mae'n bwysig eich bod yn anfon adroddiad DS1500 gyda'ch cais. Mae'r nodiadau isod yn dweud wrthych sut i gael adroddiad DS1500.

Os na chewch yr adroddiad DS1500 erbyn yr amser rydych wedi llenwi'r ffurflen gais, anfonwch y ffurflen gais atom ar unwaith. Anfonwch y DS1500 atom pan y gallwch.

Mae cael Lwfans Gweini o dan y rheolau arbennig yn golygu:

- cael y gyfradd uwch o Lwfans Gweini
- cael eich talu ar unwaith (mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid i chi aros hyd nes eich bod wedi bod angen help am chwe mis), a
- byddwn yn delio â cheisiadau'n gyflymach.

Gwneud cais o dan y rheolau arbennig ar ran rhywun arall

Gallwch wneud cais o dan y rheolau arbennig ar ran rhywun arall. Nid oes rhaid i chi ddweud wrthynt eich bod yn gwneud cais ar eu rhan. Dywedwch wrthym amdanynt ar y ffurflen gais. Fel arfer, byddwn yn ysgrifennu atynt i ddweud p'un a allent gael Lwfans Gweini, ond ni fyddwn yn dweud unrhyw beth am y rheolau arbennig.

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon fel rhan o'ch swydd, nid oes angen i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol na'ch dyddiad geni i ni yng nghwestiwn 11.

Sut i wneud cais o dan y rheolau arbennig

Cwblhewch y ffurflen gais neu gall rhywun arall wneud cais ar eich rhan. Ticiwch y blwch yng nghwestiwn 17 o'r ffurflen gais i ddangos eich bod yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig.

Os na fyddwch yn ticio'r blwch hwn, ni allwn eich talu o dan y rheolau arbennig fel arfer.

Sut i gael adroddiad DS1500

Gofynnwch i'ch meddyg neu arbenigwr am adroddiad DS1500.

Adroddiad am eich cyflwr meddygol yw hwn. Ni fydd yn rhaid i chi dalu amdano. Gallwch ofyn i dderbynnydd y meddyg, nyrs neu weithiwr cymdeithasol drefnu hyn ar eich rhan. Nid fydd yn rhaid i chi weld y meddyg. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd yn darparu adroddiadau DS1500 yn gyflym iawn. Gofynnwch am yr adroddiad mewn amlen wedi'i selio os nad ydych am i unrhyw un ei weld.

23 Y cymhorthion a'r addasiadau rydych yn eu defnyddio

Byddwn am wybod os ydych yn defnyddio unrhyw gymhorthion neu addasiadau i'ch helpu i wneud pethau. Er enghraifft:

- efallai gall peiriant codi, polyn mwnci neu godwr gwely eich helpu i godi o'r gwely
- efallai gall comôd, sedd toiled wedi ei godi neu ganllawiau eich helpu gyda'ch anghenion toiled
- efallai gall canllawiau bath, sedd cawod neu beiriant codi eich helpu i gael bath neu gawod
- efallai gall siasbi braich hir, bachyn botwm, tynnwr sip neu gymhorthydd hosan eich helpu i wisgo
- efallai gall lifft grisiau, cadair wedi'i chodi, cadair olwyn neu ganllawiau eich helpu i symud o gwmpas o dan do
- efallai gall ffon gerdded, ffrâm gerdded, baglau neu goesau ffug eich helpu i symud o gwmpas
- efallai gall cytleri arbennig neu gwpan bwydo eich helpu i fwyta ac yfed, neu
- efallai gall cymhorthydd clyw, ffôn testun, chwyddwydr neu derfynell Braille eich helpu i gyfathrebu.

Rydym hefyd am i chi ddweud wrthym os oes angen cymorth arnoch i ddefnyddio'r cymhorthion neu addasiadau, ac os felly, pa gymorth rydych yn ei gael gan berson arall.

39 Bod mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg

Ystyr cartref gofal yw cartref fel cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, hosbis neu rywle tebyg.

Mae angen i ni wybod os:

- ydych mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg pan fyddwch yn gwneud eich cais, ac
- a yw'r awdurdod lleol neu'r GIG yn talu unrhyw beth tuag at gost eich arhosiad.

Os dyfernir Lwfans Gweini i chi pan fyddwch mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg, ni allwn eich talu hyd nes y byddwch yn gadael. Ond os ydych yn glaf neu'n breswylydd preifat sy'n talu am eich arhosiad heb gymorth gan gronfeydd cyhoeddus, byddwn yn gallu eich talu.

Efallai y byddwn yn gallu eich talu o hyd os ydych yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig ac rydych mewn hosbis.

43 Sut y byddwn yn eich talu

Os gallwn dalu Lwfans Gweini i chi, byddwn yn talu'r budd-dal yn yr un modd ag y telir eich Pensiwn y Wladwriaeth neu Gredyd Pensiwn.

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a delir i chi nad oes gennych hawl i'w gael. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw'r ffordd y mae'r system yn gweithio ar gyfer gwneud taliadau i mewn i gyfrif.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n golygu eich bod yn gymwys i gael llai o arian. Weithiau ni allwn newid y swm sydd eisoes wedi'i dalu i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl i'w gael.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth a gasglwn amdanoch a sut y byddwn yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond gallem ei defnyddio ar gyfer unrhyw un o ddibenion yr Adran, gan gynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan bobl eraill i wirio'r wybodaeth a roddwch i ni ac i wella ein gwasanaethau.

Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i sefydliadau eraill, fel mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn diogelu yn erbyn trosedd.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth, ewch i'n gwefan **www.dwp.gov.uk/privacy.asp** neu cysylltwch ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Help a chyngor am fudd-daliadau eraill

Os ydych eisiau cyngor cyffredinol am unrhyw fudd-daliadau eraill y gallech wneud cais amdanynt, gallwch wneud y canlynol.

- Ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau i bobl ag anableddau ar **0800 88 22 00.**
- Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 24 33 55.** Os nad oes gennych eich ffôn testun eich hun, efallai bod gan rai llyfrgelloedd neu eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol un. Gallwch hefyd ddefnyddio Typetalk.
- Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwch gael y rhif ffôn a'r cyfeiriad yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan Jobcentre Plus.
- Cysylltwch â chanolfan gynghori fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Lwfans Gofalwr

Os ydych yn gwneud cais am Lwfans Gweini a bod rhywun yn gofalu amdanoch am o leiaf 35 awr yr wythnos, efallai y gallent gael Lwfans Gofalwr. Darllenwch y dalen wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth bwysig am Lwfans Gofalwr. Mae'n dweud wrthych chi a'ch gofalwr:

- sut gellir effeithio ar eich budd-dal os yw Lwfans Gofalwr yn cael ei dalu i'ch gofalwr
- sut i gael cymorth a chyngor am Lwfans Gofalwr
- sut i wneud cais
- pryd i wneud cais er mwyn osgoi colli budd-dal, a
- lle i gael ffurflen gais neu sut i wneud cais ar-lein.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith, gallwch wneud y canlynol.

- Ffoniwch y llinell gymorth ar **0845 300 3900.**
- Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 300 3909.**
- Os bydd angen help arnoch neu ffurflen yn Gymraeg, ffoniwch **0845 302 1489.**
- Neu ewch i'r wefan yn **www.hmrc.gov.uk**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Gredyd Pensiwn, gallwch wneud y canlynol.

- Gallwch gael taflen am Gredyd Pensiwn.
- Ffoniwch Y Gwasanaeth Pensiwn ar **0800 99 1234.**
- Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 169 0133.**
- Ewch i'r wefan yn **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

Lwfans Gweini

Darllenwch hwn ac yna trosglwyddwch ef i'ch gofalwr os oes gennych un

Mae'r daflen hon yn cynnwys dau ddarn gwahanol o wybodaeth. Mae'r rhan cyntaf i chi ac mae am eich cais am Lwfans Gweini. Mae'r ail ran i'ch gofalwr, os oes gennych un, ac mae'n rhoi gwybodaeth am Lwfans Gofalwr.

I chi – gall eich budd-dal gael ei effeithio os bydd rhywun yn gwneud cais am Lwfans Gofalwr am ddarparu gofal i chi

Os bydd eich cais am Lwfans Gweini yn llwyddiannus, efallai byddwch yn derbyn swm ychwanegol a elwir yn bremiwm anabledd difrifol (SDP) (neu swm ychwanegol ar gyfer anabledd difrifol gyda Credyd Pensiwn) wedi ei dalu fel rhan o

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor.

Os oes Lwfans Gofalwr yn cael ei dalu i rywun am ddarparu gofal i chi, ni fyddwch yn gallu derbyn yr SDP. Dylech gysylltu â'r swyddfa sydd yn delio gyda'r budd-daliadau hyn os ydych eisiau mwy o wybodaeth. **Fodd bynnag ni effeithir ar eich Lwfans Gweini.**

Ar gyfer eich gofalwr

Os ydych yn gofalu am rhywun sydd yn bwriadu gwneud cais am Lwfans Gweini, efallai byddwch yn dymuno gwneud cais am Lwfans Gofalwr (CA). Dylech ddisgwyl tan mae'r person rydych yn gofalu amdanynt yn derbyn penderfyniad ar eu cais am Lwfans Gweini. Os bydd yn cael ei ganiatau dylech wneud cais am CA. **Dylech wneud cais o fewn 3 mis i'r penderfyniad Lwfans Gweini gael ei wneud neu efallai byddwch yn colli budd-dal. Gofynnwch am becyn cais - DS700W (neu DS700SP(W) os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth).**

Lwfans Gofalwr a budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol eraill

Mae taliad o rai budd-daliadau, lwfansau neu bensiynau eraill yn effeithio taliad o CA. Golyga hyn os ydych yn derbyn budd-dal arall efallai na fydd unrhyw CA yn cael ei dalu i chi neu gall unrhyw daliad o CA gael ei lleihau. Fodd bynnag hyd yn oed os na allwch gael eich talu, mae bod a hawl i CA yn golygu efallai byddwch yn gallu derbyn swm ychwanegol wedi ei dalu gyda'ch Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai neu Budd-dal Treth Cyngor

Sut i gael help a chyngor ac i wneud cais am Lwfans Gofalwr

- Cewch wybodaeth o'r wefan yn www.direct.gov.uk/carers. Gallwch hefyd wneud cais ar lein yn y cyfeiriad hwn; neu
- Ysgrifennwch at Uned Lwfans Gofalwr, Palatine House, Lancaster Road, Preston, PR1 1HB neu ffoniwch 01253 856123 (ffôn testun 01772 562202 ar gyfer y trwm eu clyw) neu ebost i cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk
- Ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-dal (BEL) ar 0800 88 22 00. Mae hwn yn wasanaeth ffôn cyfrinachol ar gyfer pobl gyda anableddau, eu cynrychiolwyr a'u gofalwyr.
- Gall eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol a nifer o sefydliadau lleol fel Cyngor Ar Bopeth ddarparu ffurflenni cais a chymorth gyda eu cwblhau.

Mae'r pecyn cais â'r wefan yn cynnwys nodiadau sydd yn egluro Lwfans Gofalwr yn fwy manwl. Gellir hefyd darparu ffurflenni cais mewn print bras a Braille.

Mae amodau o hawl eraill yn bodoli. Ni fwriedir i hwn fod yn ddatganiad llawn o'r gyfraith a ni ddylech ddibynnu arno fel hynny.

Chwefror 2008

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Lwfans Gweini
ar gyfer pobl 65 oed neu'n hŷn

Llenwch i mewn y ffurflen gais hon a'i hanfon yn ôl i ni cyn gynted a gallwch. Gallwn ond ystyried talu budd-dal o'r dyddiad rydym yn ei derbyn.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r ffurflen hon gallwch ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau neu gysylltu â sefydliad fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Mae'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar agor o 8.30am tan 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9am tan 1pm ar ddydd Sadwrn. Ffôn **0800 88 22 00**

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 24 33 55.** Ni all y ffonau testun hyn dderbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gallwch hefyd ddefnyddio Typetalk.

Gallwn anfon ffurflen gais atoch mewn Braille neu brint bras. Neu, gall y Llinell Ymholiadau drefnu i gwblhau un gyda chi dros y ffôn. Byddant yn anfon y ffurflen gais atoch wedi'i chwblhau mewn Braille neu brint bras.

Gallwn drefnu dehonglwr hefyd os byddwch yn ein ffonio neu'n ymweld â ni. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â'r Llinell Ymholiadau.

Cadwch y dudalen hon gyda'r nodiadau am, gwneud cais am Lwfans Gweini. Efallai byddwch ei angen ar ôl anfon y ffurflen gais yn ôl atom.

Pethau i'w paratoi cyn i chi lenwi'r ffurflen gais

Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais, bydd yn ddefnyddiol i chi baratoi rhai o'r pethau a restrir isod. Peidiwch â phoeni os nad oes gennych bob un ohonynt.

- Eich rhif Yswiriant Gwladol. Gallwch ddod o hyd iddo ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu slipiau cyflog. Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol, neu os nad ydych yn ei wybod, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Byddant yn eich helpu i wneud cais amdano neu olrhain eich rhif.
- Enw eich meddyg teulu a chyfeiriad y feddygfa.
- Manylion eich meddyginiaeth neu restr presgripsiwn diweddar wedi'i hargraffu os oes gennych un.
- Manylion o unrhyw un rydych wedi'i weld am eich salwch neu anableddau yn ystod y 12 mis diwethaf, heblaw eich meddyg teulu.
- Eich rhif cofnod yr ysbyty (os ydych yn gwybod beth ydyw). Gallwch weld hwn ar eich cerdyn neu lythyr apwyntiad.
- Os ydych wedi bod yn yr ysbyty, mewn cartref gofal neu rywle tebyg, y dyddiadau yr aethoch yno a phryd wnaethoch adael ac enw a chyfeiriad y man lle fuoch yn aros.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gadw cofnod o'ch anghenion.

i I gael rhagor o wybodaeth darllenwch dudalen 6 o'r **nodiadau**.

Ni fydd yn rhaid i chi gwblhau'r ffurflen yn gyfan gwbl ar unwaith. Cymerwch eich amser fel y gallwch ddisgrifio'r holl gymorth sydd ei angen arnoch.

Sut i lenwi'r ffurflen gais

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen hon. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn siŵr sut i sillafu rhywbeth neu os byddwch yn gwneud camgymeriad. Os ydych am gywiro camgymeriad, rhowch linell drwyddo gyda phen a pheidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Ticiwch y blwch i ddangos eich ateb, er enghraifft: **Ydw** ☑ **Na** ☐

Beth fydd yn digwydd nesaf

Cwblhewch y ffurflen gais ac anfonwch hi atom yn y post.
Ysgrifennwch y dyddiad rydych yn postio eich ffurflen gais atom yn y blwch hwn.

/ /

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich ffurflen gais. Os na fyddwch yn derbyn y llythyr hwn o fewn pythefnos i anfon eich ffurflen gais atom, ffoniwch ni ar **08457 12 34 56.** Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **08457 22 44 33**.

Llenwch i mewn y ffurflen gais hon a'i hanfon yn ôl i ni cyn gynted a gallwch. Gallwn ond ystyried talu budd-dal o'r dyddiad rydym yn ei derbyn.

Amdanoch chi

Rhowch eich manylion personol i ni. **Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym amdanyn nhw, nid amdanoch chi eich hun.**

1 **Cyfenw neu enw teuluol**

Pob enw arall yn llawn

Teitl
Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms

Llythrennau **Rhifau** **Llythyren**

2 **Rhif Yswiriant Gwladol**

3 **Dyddiad geni**
(diwrnod/mis/blwyddyn)

4 **Rhyw** **Gwryw** **Menyw**

5 **Cyfeiriad lle rydych chi'n byw**

Cod post

6 **Rhif ffôn yn ystod y dydd lle y gallwn gysylltu â chi neu adael neges.**

Rhif ffôn,
yn cynnwys y cod deialu

Ticiwch i ddweud wrthym sut yr hoffech i ni gysylltu â chi.

Ffôn **Ffacs** **Ffôn testun**

Nid yw ein gwasanaeth ffôn testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Rhif ffôn symudol

7 **Beth yw eich cenedligrwydd?**

Er enghraifft, Prydeinig, Sbaenaidd, Twrcaidd

Amdanoch chi (parhad)

8 **A ydych yn byw ym Mhrydain Fawr fel arfer?**
Ystyr Prydain Fawr yw Cymru, Lloegr a'r Alban.

i I gael rhagor o wybodaeth darllenwch dudalen 7 o'r **nodiadau**.

Ydw ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 9.

Os ydych yn byw yng Nghymru ac yr hoffech i ni gysylltu â chi yn Gymraeg, ticiwch y blwch hwn. ☐

9 **A ydych wedi bod dramor am gyfanswm o fwy na 13 wythnos yn ystod y 52 wythnos diwethaf? Ystyr dramor yw y tu allan i Brydain Fawr.**

Ydw ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 10.

Os ydych wedi bod dramor am fwy na 13 wythnos yn ystod y 52 wythnos diwethaf, dywedwch wrthym pryd yr aethoch dramor, ble yr aethoch a pham.

O ☐☐/☐☐/☐☐ I ☐☐/☐☐/☐☐

Dywedwch wrthym i ble yr aethoch.

Dywedwch wrthym pam yr aethoch.

Os ydych wedi bod dramor fwy nag unwaith yn ystod y 52 wythnos diwethaf, dywedwch y dyddiadau yr aethoch dramor, ble yr aethoch a pham yng nghwestiwn 45 **Gwybodaeth ychwanegol.**

10 **Ym mha fath o lety rydych yn byw ynddo?**
Er enghraifft, efallai eich bod yn byw mewn tŷ, byngalo, fflat, tai â chymorth, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio neu rywle arall.

Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall

11 **Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall**

Gallwch lenwi'r ffurflen hon ar ran oedolyn arall, ond rhaid iddynt lofnodi'r ffurflen eu hunain heblaw bod **un o'r canlynol yn gymwys**. Ticiwch bob blwch perthnasol.

- Rwyf yn dal pŵer atwrnai i dderbyn a delio â'u budd-daliadau o'r adran nawdd cymdeithasol, neu ☐
- Rwyf yn gweithredu fel dirprwy iddynt, a benodwyd gan y Llys Gwarchod, neu
- Yn yr Alban, rwyf yn rheolwr barnwrol, gwarcheidwad, tiwtor neu'r curator bonis a benodwyd o dan gyfraith yr Alban.

Anfonwch y ddogfen berthnasol (neu gopi ardystiedig) atom gyda'r ffurflen gais hon a llofnodwch y datganiad ar eu rhan. Rhaid i gopïau gael eu hardystio, a'u llofnodi, i nodi eu bod yn wir ac yn gyflawn gan y cwsmer, cyfreithiwr neu frocer stoc.

- Rwy'n Benodai, a benodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), i dderbyn a delio â'u budd-daliadau a'u llythyrau o'r adran nawdd cymdeithasol. ☐

Byddwn yn anfon pob llythyr ynghylch Lwfans Gweini atoch chi.

- Ni allant ymdopi â'u materion yn sgîl problem iechyd meddwl neu anabledd dysgu. ☐

Byddwn yn cysylltu â chi ynghylch hyn. Os na all y cwsmer ymdopi â'u materion, gallai DWP eich penodi chi i gael eu budd-daliadau a delio â llythyrau o'r adran nawdd cymdeithasol.

- Maent mor sâl neu anabl, maent yn ei chael yn amhosibl llofnodi'r ffurflen eu hunain. ☐

Byddwn yn cysylltu â chi ynghylch hyn.

- Rwyf yn gwneud cais ar eu rhan o dan y rheolau arbennig. ☐

i Mae'n rhaid i chi ddarllen y **nodiadau am reolau arbennig** ar dudalen 8 y **nodiadau** cyn i chi dicio'r blwch hwn a thicio'r blwch yng nghwestiwn 17.

Os nad yw'r person yn gwybod eich bod yn llofnodi'r ffurflen hon ar ei ran, dywedwch wrthym pam.

Eich enw

Llythrennau **Rhifau** **Llythyren**

Rhif Yswiriant Gwladol

Dyddiad geni
(diwrnod/mis/blwyddyn) / /

Eich cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd,
yn cynnwys y cod deialu

12 **Rhestrwch fanylion eich salwch neu anableddau ar wahân yn y tabl isod.**

Ystyr salwch neu anableddau yw anawsterau corfforol, gyda'ch golwg, gyda'ch clyw neu'ch lleferydd neu broblemau iechyd meddwl.

Os oes gennych restr presgripsiwn diweddar wedi'i hargraffu, anfonwch hi atom gyda'r ffurflen hon. Os byddwch yn anfon eich rhestr bresgripsiwn atom, nid oes yn rhaid i chi ddweud wrthym am eich meddyginiaethau a'r dogn yn y tabl isod.

Gallwch weld y dogn ar label eich meddyginiaeth.

Ystyr triniaethau yw pethau fel ffisiotherapi, therapi lleferydd, therapi galwedigaethol neu ymweld â chanolfan gofal dydd neu weithiwr iechyd meddwl proffesiynol ar gyfer cynghori neu driniaethau eraill.

Enw'r salwch neu'r anabledd.	**Ers faint mae'r salwch neu'r anabledd wedi bod gennych?**	**Pa feddyginiaethau neu driniaethau (neu'r ddau) a ragnodwyd i chi ar gyfer y salwch neu'r anabledd hwn?**	**Beth yw'r dogn a pha mor aml rydych yn cymryd pob un o'r meddyginiaethau neu pa mor aml y byddwch yn cael triniaeth?**
Enghraifft Clefyd Alzheimer	Dwy flynedd	Aricept	10 miligram (mg) Un dabled y dydd
Enghraifft Methiant yr arennau	Blwyddyn	Dialysis	Dwywaith yr wythnos
Enghraifft Rhannol ddall	Tua deng mlynedd	Dim	Dim

Os oes angen rhagor o le arnoch i ddweud wrthym am eich salwch neu anableddau, gallwch barhau yng nghwestiwn 45 **Gwybodaeth ychwanegol.**

13 **Heblaw am eich meddyg teulu, a ydych wedi gweld unrhyw un am eich salwch neu anableddau yn ystod y 12 mis diwethaf?**
Er enghraifft, meddyg neu arbenigwr yn yr ysbyty, nyrs ranbarthol neu arbenigol, nyrs seiciatrig gymunedol, therapydd galwedigaethol, seicotherapydd, awdiolegydd neu weithiwr cymdeithasol.

Ydw ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 14.

Ei enw (Mr,Mrs,Miss,Ms,Dr)

Ei alwedigaeth neu faes arbenigol

Y cyfeiriad lle ewch i'w weld er enghraifft, cyfeiriad y ganolfan iechyd neu'r ysbyty.

Cod post

Ei rif ffôn, yn cynnwys y cod deialu

Eich rhif cofnod yr ysbyty
Gallwch weld hwn ar eich cerdyn neu lythyr apwyntiad.

Mewn perthynas â pha salwch neu anabledd rydych yn mynd i'w weld?

Pa mor aml rydych yn ei weld oherwydd eich salwch neu anableddau?

Pryd aethoch i'w weld oherwydd eich salwch neu anableddau ddiwethaf?

Os ydych wedi gweld mwy nag un gweithiwr proffesiynol, rhowch eu manylion cyswllt i ni, beth maent yn ei drin i chi a phryd yr aethoch i'w gweld ddiwethaf yng nghwestiwn 45 **Gwybodaeth ychwanegol.**

14 **A oes unrhyw un arall yn eich helpu oherwydd eich salwch neu anableddau?**
Er enghraifft, gofalwr, gweithiwr cynnal, nyrs, ffrind, cymydog neu aelod o'r teulu.

Oes ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 15.

Ei enw

Ei gyfeiriad

Cod post

Ei rif ffôn,
yn cynnwys y cod deialu

Pa gymorth a gewch ganddynt?

Eu perthynas â chi

Pa mor aml y byddwch yn eu gweld?

Os oes mwy nag un person yn eich helpu, rhowch eu henw a sut maent yn eich helpu yng nghwestiwn 45 **Gwybodaeth ychwanegol.**

15 **Eich meddyg teulu**

i I gael rhagor o wybodaeth darllenwch dudalen 7 o'r **nodiadau.**

Ei enw
Os nad ydych yn gwybod enw eich meddyg teulu, rhowch enw'r feddygfa neu'r ganolfan iechyd i ni.

Ei gyfeiriad

Cod post

Ei rif ffôn,
yn cynnwys y cod deialu

Pryd yr aethoch i'w weld oherwydd eich salwch neu anableddau ddiwethaf?
/ /

16

Caniatâd

Efallai y byddwn am gysylltu â'ch meddyg teulu, neu'r bobl neu'r sefydliadau sy'n ymwneud â chi, i gael gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch cais. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth feddygol sy'n gysylltiedig â'ch cais. Nid oes rhaid i chi roi caniatâd i ni gysylltu gyda'r bobl neu'r sefydliadau hyn, ond os na wnewch hynny, gallai olygu na allwn gael digon o wybodaeth i'n sicrhau eich bod yn bodloni'r amodau i hawlio mewn perthynas â'ch cais.

Gallai'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhoi gwasanaethau meddygol ar ran sefydliad a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ofyn i unrhyw berson neu sefydliad am unrhyw wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth feddygol, sydd ei hangen arnom i ymdrin a:

- y cais hwn am fudd-dal, neu
- unrhyw apêl neu ailystyriaeth arall ynghylch penderfyniad yn ymwneud â'r cais hwn,

ac y gellir rhoi'r wybodaeth i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hwnnw neu i'r Adran.

Ticiwch un o'r opsiynau caniatâd isod yna llofnodwch a rhowch y dyddiad isod.

Rwyf yn rhoi caniatâd i chi gysylltu â'r bobl neu'r sefydliadau perthnasol, fel y nodir yn y datganiad uchod. ☐

Nid wyf yn rhoi caniatâd i chi gysylltu â'r bobl neu'r sefydliadau perthnasol, fel y nodir yn y datganiad uchod. ☐

Llofnod

Dyddiad / /

Sicrhewch eich bod hefyd yn llofnodi a rhoi'r dyddiad ar y datganiad, cwestiwn 46.

17

Rheolau arbennig

i Mae'n rhaid i chi ddarllen tudalen 8 o'r **nodiadau** am reolau arbennig cyn i chi dicio'r blwch isod.

Mae'r rheolau arbennig yn gymwys i bobl sydd â chlefyd cynyddol ac na ddisgwylir iddynt fyw yn hirach na chwe mis.

Os nad ydych yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig, ewch i gwestiwn 18.

Os ydych yn gwneud cais o dan y rheol arbennig, ticiwch y blwch hwn. ☐

Os ydych yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig, ewch yn syth i gwestiwn 39. Yna dychwelwch y ffurflen hon atom gydag adroddiad DS1500. Gallwch gael yr adroddiad gan eich meddyg neu arbenigwr.

Os nad ydych wedi cael eich adroddiad DS1500 erbyn i chi gwblhau'r ffurflen gais, anfonwch y ffurflen gais atom ar unwaith. Os byddwch yn aros, gallech golli arian. Dychwelwch yr adroddiad DS1500 cyn gynted â phosibl.

Sicrhewch eich bod yn llofnodi'r **caniatâd** uchod a'r **datganiad** yng nghwestiwn 46.

Os ydych yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig, ewch i gwestiwn 39. Nid oes rhaid i chi ateb mwy o gwestiynau cyn hynny.

18 **A oes gennych unrhyw adroddiadau am eich salwch neu'ch anableddau?**

Gallent fod gan unigolyn sy'n eich trin, er enghraifft, therapydd galwedigaethol, meddyg yn yr ysbyty neu gynghorydd. Gall fod yn adroddiad asesu, cynllun gofal neu rywbeth tebyg.

Oes ☐ Anfonwch gopi atom, os oes gennych un. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 19.

Peidiwch â phoeni os nad oes gennych unrhyw adroddiadau. Anfonwch eich ffurflen gais.

19 **A ydych ar restr aros ar gyfer llawdriniaeth?**

Ydw ☐ Dywedwch wrthym am hyn yn y tabl isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 20.

Y dyddiad y cawsoch eich rhoi ar y rhestr aros	Pa lawdriniaeth y byddwch yn ei chael?	Pryd y dylech gael y llawdriniaeth, os gwyddoch hynny?
Enghraifft 1 Mai 2008	Llawdriniaeth i osod clun dde newydd	1 Hydref 2008

20 **A ydych wedi cael unrhyw brofion ar gyfer eich salwch neu'ch anableddau?**

Er enghraifft, briglif, ymarfer peiriant cerdded, prawf clywed neu brawf golwg neu rywbeth arall.

Ydw ☐ Dywedwch wrthym amdanynt yn y tabl isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 21.

Dyddiad a math o brawf	Canlyniadau
Enghraifft Ebrill 2008 prawf peiriant cerdded	Pedair munud (cam 2)

21 **Ble mae'r toiled yn eich cartref?**

Fyny'r grisiau ☐ **Lawr grisiau** ☐ **Arall** Dywedwch ble wrthym. ☐

22 **Ble rydych yn cysgu yn eich cartref?**

Fyny'r grisiau ☐ **Lawr grisiau** ☐ **Arall** Dywedwch ble wrthym. ☐

23 **Rhestrwch unrhyw gymhorthion neu addasiadau rydych yn eu defnyddio.**

Rhowch dic yn yr ail flwch yn erbyn y rhai a ragnodwyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, er enghraifft, therapydd galwedigaethol.

Os ydych yn cael anhawster wrth ddefnyddio unrhyw gymhorthion neu addasiadau neu os oes angen cymorth person arall i'w defnyddio, dywedwch wrthym yn y tabl isod.

i I gael rhagor o wybodaeth darllenwch dudalen 9 o'r **nodiadau.**

Cymhorthion ac addasiadau	✓	**Sut mae hyn yn eich helpu?**	**Pa anawsterau a gewch wrth ddefnyddio'r cymorth neu'r addasiad hwn?**
Enghraifft Chwyddwydr		Mae'n fy helpu i weld testun yn y papur newydd.	Dim
Enghraifft Lifft grisiau		Mae'n fy helpu i fynd i fyny a lawr y grisiau	Mae angen help arnaf i fynd i'r gadair a chodi ohoni.

Os oes angen rhagor o le i ddweud wrthym am eich cymhorthion neu addasiadau, gallwch barhau yng nghwestiwn 45 **Gwybodaeth ychwanegol.**

Eich anghenion gofal yn ystod y dydd

Mae yn ystod y dydd yn cynnwys gyda'r nos

Ystyr anghenion gofal yw cymorth neu oruchwyliaeth oherwydd salwch neu anabledd gyda:

- thasgau bob dydd fel codi o'r gwely neu fynd i'r gwely, gwisgo, ymolchi
- cymryd rhan mewn hobïau, diddordebau, gweithgareddau cymdeithasol neu grefyddol penodol, neu
- cyfathrebu.

Ystyr cymorth yw cymorth corfforol, arweiniad neu anogaeth gan rywun arall fel y gallwch gyflawni'r dasg.

Defnyddiwch y blychau ticio i ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch fel arfer. Ystyr fel arfer yw'r rhan fwyaf o'r amser.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod wrthym am unrhyw anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch, p'un a ydych yn ei gael neu beidio.

i I gael rhagor o wybodaeth am ofal a goruchwyliaeth, darllenwch dudalen 4 o'r **nodiadau.**

24 **A ydych yn cael anawsterau neu a oes angen cymorth arnoch fel arfer i godi o'r gwely yn y bore neu i fynd i'r gwely gyda'r nos?**

Ydw ☐ Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 25.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:

- i fynd i'r gwely ☐
- i godi o'r gwely ☐

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:

- anogaeth i godi o'r gwely yn y bore ☐
- anogaeth i fynd i'r gwely gyda'r nos ☐

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch i godi o'r gwely neu fynd iddo?

Er enghraifft, efallai y byddwch yn mynd yn ôl i'r gwely yn ystod y dydd neu rydych yn aros yn y gwely drwy'r dydd.

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 25.

25 **A ydych yn cael anhawster neu a oes angen help arnoch gyda'ch anghenion toiled?**

Mae hyn yn golygu pethau fel cyrraedd y toiled, defnyddio'r toiled, comôd, pot gwely neu botel. Mae hefyd yn golygu defnyddio neu newid cymhorthion anymataliaeth, cathetr neu lanhau eich hun.

Ydw ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 26.

Dywedwch wrthym pa gymorth sydd ei angen arnoch a pha mor aml.

Er enghraifft
Os oes angen help arnoch i gyrraedd a defnyddio'r toiled bedair gwaith y diwrnod, byddech yn cwblhau'r blychau fel y dangosir isod.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:	**Pa mor aml?**
• gyda fy anghenion toiled	4 gwaith y dydd

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:	**Pa mor aml?**
• gyda fy anghenion toiled	
• gyda fy anghenion anymataliaeth	

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:	**Pa mor aml?**
• anogaeth gyda fy anghenion toiled	
• anogaeth gyda fy anghenion anymataliaeth	

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch gyda'ch anghenion toiled?

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 26.

26 **A ydych yn cael anhawster neu a oes angen help arnoch fel arfer gydag ymolchi, cael bath, cael cawod neu ofalu am eich ymddangosiad?**

Mae hyn yn golygu pethau fel mynd i'r bath neu'r gawod neu ddod allan ohono/ohoni, gofalu am eich ymddangosiad neu ofalu am eich hylendid personol gan gynnwys pethau fel glanhau eich dannedd, golchi eich gwallt, eillio neu rywbeth felly.

Ydw ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 27.

Dywedwch wrthym pa gymorth sydd ei angen arnoch a pha mor aml.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:

	Pa mor aml?
• i ofalu am fy ymddangosiad	
• mynd i'r bath a chodi ohono	
• ymolchi a sychu fy hun neu ofalu am fy hylendid personol	
• defnyddio cawod	

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:

	Pa mor aml?
• anogaeth i ofalu am fy ymddangosiad	
• anogaeth i ymolchi, cael bath, cael cawod, sychu fy hun neu ofalu am fy hylendid personol, neu fy atgoffa amdanynt	

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch i ymolchi, cael bath neu gawod neu ofalu am eich ymddangosiad?

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 27.

27 **A oes gennych anhawster neu a oes angen help arnoch i wisgo neu ddadwisgo?**

Oes ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 28.

Dywedwch wrthym pa gymorth sydd ei angen arnoch a pha mor aml.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:	**Pa mor aml?**
• gyda gwisgo neu gau dillad neu esgidiau	
• gyda dadwisgo neu dynnu esgidiau	
• gyda dewis dillad addas	

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:	**Pa mor aml?**
• anogaeth i wisgo neu ddadwisgo	
• fy atgoffa i newid fy nillad	

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch i wisgo neu ddadwisgo?

Er enghraifft, efallai y byddwch yn fyr eich anadl, yn cael poen neu gall gymryd amser hir.

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 28.

28 **A oes gennych anhawster neu a oes angen help arnoch i symud o amgylch o dan do?**

Ystyr o dan do yw unrhyw le y tu mewn, nid lle rydych chi'n byw yn unig.

Oes ☐ Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 29.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:

- i gerdded o dan do ☐
- mynd i fyny neu i lawr y grisiau ☐
- eistedd neu godi o gadair ☐
- symud i gadair olwyn ac allan ohoni ☐

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:

- anogaeth neu fy atgoffa i symud o amgylch o dan do ☐

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch wrth symud o amgylch o dan do?

Er enghraifft, efallai y byddwch yn gafael mewn dodrefn wrth symud neu gall gymryd amser hir.

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 29.

29 **A ydych yn cwympo neu'n baglu oherwydd eich salwch neu'ch anableddau?**

Er enghraifft, efallai y byddwch yn cwympo neu'n baglu gan fod gennych gyhyrau gwan, cymalau anystwyth neu mae eich pen-glin yn rhoi, neu efallai bod gennych broblemau gyda'ch golwg, neu gallech lewygu, teimlo'n benysgafn neu gael ffit.

Ydw ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 30.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn cwympo neu'n baglu?
Dywedwch wrthym pam y byddwch yn cwympo neu'n baglu ac os byddwch anafu eich hun.

A oes angen help arnoch i godi ar ôl cwympo?
Dywedwch wrthym os byddwch yn cael anhawster ar ôl cwympo a'r help sydd ei angen arnoch gan rywun arall.

Oes ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐

Pryd oedd y tro diwethaf i chi gwympo neu faglu? ☐☐/☐☐/☐☐☐☐

Os nad ydych yn gwybod yr union ddyddiad, dywedwch wrthym yn fras pryd y digwyddodd.

Pa mor aml y byddwch yn cwympo neu'n baglu?
Dywedwch wrthym yn fras sawl gwaith y gwnaethoch gwympo neu faglu yn ystod y mis diwethaf neu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

☐☐ gwaith y mis diwethaf.

☐☐ gwaith y flwyddyn ddiwethaf.

30 **A oes gennych anhawster neu a oes angen help arnoch fel arfer i dorri, bwyd, ei fwyta neu yfed?**

Mae hyn yn golygu pethau fel cael bwyd neu ddiod i'ch ceg neu adnabod bwydydd ar eich plât.

Oes ☐ Gallwch barhau isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 31.

Dywedwch wrthym pa gymorth sydd ei angen arnoch a pha mor aml.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:	**Pa mor aml?**
• i fwyta neu yfed	
• gyda thorri bwyd ar fy mhlât	

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:	**Pa mor aml?**
• anogaeth neu fy atgoffa i fwyta neu yfed	

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch gyda thorri bwyd, ei fwyta neu yfed?

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 31.

31 **A ydych yn cael anhawster neu a oes angen help arnoch fel arfer gyda chymryd eich meddyginiaeth neu gyda'ch triniaeth feddygol?**

Mae hyn yn golygu pethau fel pigiadau, mewnanadlydd, diferion llygaid, ffisiotherapi, therapi ocsigen, therapi lleferydd, triniaeth fonitro, ymdopi â sgîl-effeithiau, a chymorth gan wasanaethau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys trin meddyginiaeth a deall pa feddyginiaethau i'w cymryd, faint i'w cymryd a phryd i'w cymryd.

Ydw ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 32.

Dywedwch wrthym pa gymorth sydd ei angen arnoch a pha mor aml.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:

Pa mor aml?

- i gymryd fy meddyginiaeth ☐
- gyda fy nhriniaeth neu therapi ☐

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:

Pa mor aml?

- anogaeth neu fy atgoffa i gymryd fy meddyginiaeth ☐
- anogaeth neu fy atgoffa am fy nhriniaeth neu therapi ☐

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch i gymryd eich meddyginiaeth neu gyda thriniaeth feddygol?

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 32.

32 **A oes angen help gan berson arall arnoch i gyfathrebu â phobl eraill?**

Er enghraifft, efallai bod gennych broblem iechyd meddwl, anabledd dysgu, anhawster gyda'ch golwg, eich clyw neu eich lleferydd ac mae angen help i gyfathrebu arnoch. Rhowch eich ateb fel pe baech yn defnyddio eich cymhorthion arferol, fel sbectol neu gymorth clyw.

Oes ☐ Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 33.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:

- i ddeall pobl nad wyf yn eu hadnabod yn dda ☐
- cael fy neall gan bobl nad ydynt yn fy adnabod yn dda ☐
- mewn lleoedd nad wyf yn gyfarwydd â hwy ☐
- canolbwyntio ar bethau neu eu cofio ☐
- ateb a defnyddio'r ffôn ☐
- darllen llythyrau, cwblhau ffurflenni, ateb post ☐
- gofyn am gymorth pan fo'i angen arnaf ☐

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch gan rywun arall i gyfathrebu â phobl eraill?
Er enghraifft, rydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Oes ☐ Dywedwch wrthym am eich anghenion cyfathrebu yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 33.

33 **A oes angen help gan berson arall arnoch i gymryd rhan weithgar mewn hobïau, diddordebau, gweithgareddau cymdeithasol neu grefyddol fel arfer?**
Mae angen y wybodaeth hon arnom gan ein bod yn ystyried y cymorth sydd ei angen arnoch neu a fyddai ei angen arnoch i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, yn ogystal â'r help arall sydd ei angen arnoch yn ystod y dydd.

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 34.

Dywedwch wrthym am y gweithgareddau a'r help sydd ei angen arnoch gan berson arall **gartref.**

Beth rydych yn ei wneud neu beth hoffech ei wneud.	**Pa help sydd ei angen arnoch neu a fyddai ei angen arnoch gan berson arall i wneud hyn?**	**Pa mor aml rydych yn ei wneud neu yr hoffech ei wneud?**
Enghraifft Gwrando ar gerddoriaeth	Ni allaf weld ac mae'n rhaid i'm gwraig ddod o hyd i'r ddisg sydd ei eisiau arnaf a rhoi'r ddisg yn y peiriant.	Pedair neu bum gwaith yr wythnos

Dywedwch wrthym am y gweithgareddau a'r help sydd ei angen arnoch gan berson arall **pan fyddwch yn mynd allan.**

Beth rydych yn ei wneud neu beth hoffech ei wneud.	**Pa help sydd ei angen arnoch neu a fyddai ei angen arnoch gan berson arall i wneud hyn?**	**Pa mor aml rydych yn ei wneud neu yr hoffech ei wneud?**
Enghraifft Nofio	Pan fyddaf yn mynd i'r pwll nofio mae angen help arnaf i newid, sychu fy hun a mynd i'r pwll a dod allan ohono.	Tair gwaith yr wythnos am hanner awr bob tro.

Os oes angen rhagor o le arnoch i ddweud wrthym am eich hobïau, diddordebau, gweithgareddau cymdeithasol neu grefyddol, gallwch barhau yng nghwestiwn 45 **Gwybodaeth ychwanegol.**

34 **A oes angen rhywun i gadw golwg arnoch fel arfer?**

Er enghraifft, efallai fod gennych broblem iechyd meddwl, anabledd dysgu, anhawster gyda'ch golwg, eich clyw neu eich lleferydd ac mae angen eich goruchwylio.

Oes ☐ Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 35.

Pa mor hir y gellir eich gadael yn ddiogel ar y tro? ☐

Dywedwch wrthym pam bod angen goruchwyliaeth arnoch.

- Er mwyn atal niwed i mi fy hun neu eraill. ☐
- Nid wyf yn ymwybodol o beryglon cyffredin. ☐
- Mae risg y byddaf yn esgeuluso fy hun. ☐
- Mae risg y byddaf yn niweidio fy hun. ☐
- Gallaf grwydro. ☐
- Er mwyn fy annog i beidio ag ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu'n ymosodol. ☐
- Gallaf gael ffitiau, cyfnodau o deimlo'n benysgafn neu lewygu. ☐
- Gallaf ddrysu. ☐
- Gallaf glywed lleisiau neu gael syniadau sy'n amharu ar fy ffordd o feddwl. ☐

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr oruchwyliaeth sydd ei angen arnoch gan berson arall?

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 35.

35 **A oes gennych anhawster neu a oes angen help arnoch yn ystod y nos?**
Mae hyn yn golygu pethau fel gwneud eich hun yn gysurus, mynd i'ch priod le i gysgu, eich rhoi i bwyso yn ôl neu roi eich dillad gwely yn ôl ar y gwely os byddant yn cwympo oddi arno, cyrraedd y toiled, defnyddio'r toiled, defnyddio comôd, pot gwely neu botel, cyrraedd a chymryd eich tabledi neu feddyginiaethau presgripsiwn a chael unrhyw driniaeth neu therapi.

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 36.

Dywedwch wrthym pa gymorth sydd ei angen arnoch, pa mor aml a pha mor hir y mae angen y cymorth arnoch bob tro.

Rwy'n cael anhawster neu mae angen help arnaf:

	Pa mor aml?	Am faint o amser?
• i droi neu newid safle yn y gwely		munud
• cysgu'n gyfforddus		munud
• gyda fy anghenion toiled		munud
• gyda fy anghenion anymataliaeth		munud
• i gymryd fy meddyginiaeth		munud
• gyda thriniaeth neu therapi		munud

Rwy'n cael anhawster canolbwyntio neu i gymell fy hun ac mae angen:

	Pa mor aml?	Am faint o amser?
• anogaeth neu fy atgoffa am fy anghenion toiled neu anymataliaeth		munud
• anogaeth neu fy atgoffa am feddyginiaeth neu driniaeth feddygol		munud

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am yr anhawster a gewch neu'r cymorth sydd ei angen arnoch yn ystod y nos?

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 36.

36 **A oes angen rhywun i ofalu amdanoch fel arfer?**

Er enghraifft, efallai fod gennych broblem iechyd meddwl, anabledd dysgu, anhawster gyda'ch golwg, eich clyw neu eich lleferydd ac mae angen i berson arall aros yn effro i ofalu amdanoch.

Oes ☐ Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 37.

Dywedwch wrthym pam bod angen i rywun ofalu amdanoch.

- Er mwyn atal niwed i mi fy hun neu eraill. ☐
- Nid wyf yn ymwybodol o beryglon cyffredin. ☐
- Mae risg y byddaf yn niweidio fy hun. ☐
- Gallaf grwydro. ☐
- Er mwyn fy annog i beidio ag ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu'n ymosodol. ☐
- Gallaf ddrysu. ☐
- Gallaf glywed lleisiau neu gael syniadau sy'n amharu ar fy ffordd o feddwl. ☐

Faint o weithiau yn ystod y nos mae angen i'r person arall fod yn effro i ofalu amdanoch? ☐

Ar gyfartaledd, am faint o amser mae angen i'r person arall fod yn effro i ofalu amdanoch? ☐ munud

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am pam bod angen rhywun i ofalu amdanoch?

Oes ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 37.

37 **Dywedwch wrthym am unrhyw beth arall y credwch y dylem ei wybod am yr anhawster sydd gennych neu'r help sydd ei angen arnoch.**

Os oes angen rhagor o le arnoch i ddweud wrthym am y cymorth sydd ei angen arnoch neu'r anhawster a gewch gyda'ch anghenion gofal, gallwch barhau yng nghwestiwn 45 **Gwybodaeth ychwanegol.**

38 **Pan ddechreuodd eich anghenion gofal**

Fel arfer, dim ond os bu gennych anhawster neu fod angen help arnoch am chwe mis y gallwch gael Lwfans Gweini.

Rhowch wybod y dyddiad y dechreuodd eich anghenion gofal.
Os nad ydych yn cofio'r union ddyddiad, dywedwch wrthym yn fras pryd oedd hynny.

/ /

39 **A ydych mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg nawr?**

Er enghraifft, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, hosbis neu rywle tebyg.

i I gael rhagor o wybodaeth darllenwch dudalen 9 o'r **nodiadau.**

Ydw ☐ Dywedwch wrthym pryd yr aethoch yno. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 40.

/ /

Rhowch enw a chyfeiriad llawn y lle rydych yn aros yno.

Cod post

Os ydych yn yr ysbyty, pam aethoch i'r ysbyty?

A yw'r awdurdod lleol, ymddiriedolaeth y GIG, ymddiriedolaeth gofal sylfaenol neu adran o'r llywodraeth yn talu am rywfaint o'r costau er mwyn i chi fyw yno?

Ydynt ☐ **Os 'Ydynt', pa awdurdod, ymddiriedolaeth y GIG, ymddiriedolaeth gofal sylfaenol neu adran o'r llywodraeth sy'n talu?** **Na** ☐

40 **A ydych wedi gadael ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg yn ystod y chwe wythnos diwethaf?**

Ydw ☐ Dywedwch wrthym pryd yr aethoch yno. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 41.

/ /

Dywedwch wrthym pryd y daethoch oddi yno.

/ /

Rhowch enw a chyfeiriad llawn y man lle buoch yn aros.

Cod post

Os ydych wedi bod yn yr ysbyty, pam aethoch i'r ysbyty?

Amser a dreuliwyd mewn ysbyty (parhad)

41 A ydych chi wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y ddwy flynedd diwethaf?

Ydw ☐ Dywedwch wrthym yn y blwch isod.

Na ☐ Ewch i gwestiwn 42.

Pam y bu'n rhaid i chi fynd i'r ysbyty?

42 Lwfans Gweini Cyson

Ticiwch y blwch os ydych yn cael un o'r canlynol neu'n disgwyl clywed amdanynt:

- Lwfans Gweini Cyson Pensiwn Rhyfel ☐
- Lwfans Gweini Cyson Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ☐

43 Sut y byddwn yn eich talu

i Mae'n rhaid i chi ddarllen tudalen 10 o'r **nodiadau** am sut y byddwn yn eich talu cyn i chi dicio un o'r blychau isod.

Os gallwn dalu Lwfans Gweini i chi, byddwn yn talu'r budd-dal yn yr un modd ag y telir eich Pensiwn y Wladwriaeth neu Gredyd Pensiwn.

Ticiwch os ydych yn yn cytuno i ni ei dalu yn y modd hwn a'ch bod yn deall y wybodaeth am gael eich gordalu ar dudalen 10 o'r **nodiadau – Sut y byddwn yn eich talu.** ☐

Ticiwch os nad ydych yn cytuno, neu os nad ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu Gredyd Pensiwn. Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn. ☐

44 Datganiad gan rywun arall sy'n eich adnabod

Noder, nid oes rhaid cwblhau'r datganiad hwn.

Os ydych am gwblhau'r datganiad hwn, y person gorau i wneud hynny yw'r un sydd fwyaf cysylltiedig â'ch triniaeth neu'ch gofal. Gallai fod yn rhywun rydych eisoes wedi sôn amdano ar y ffurflen hon.

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran y person anabl, dylech ofyn i rywun arall gwblhau'r rhan hon.

Pa mor aml rydych yn gweld y person y mae'r ffurflen hon yn cyfeirio ato?

Nodwch beth yw ei salwch a'i anableddau a sut y caiff ei effeithio ganddynt.

Rhowch eich swydd, proffesiwn neu berthynas â'r person y mae'r ffurflen hon yn cyfeirio ato.

Eich enw llawn

Eich cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd
lle y gallwn gysylltu â chi neu adael neges

Eich llofnod

Dyddiad / /

45 **Gwybodaeth Ychwanegol**

Dywedwch unrhyw beth arall y credwch y dylem ei wybod am eich cais.

Os oes angen mwy o le arnoch, gallwch barhau ar dudalen 29. Rhowch eich enw a'ch Rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw ddarnau ychwanegol o bapur y byddwch yn eu hanfon atom.

46

Ni allwn dalu unrhyw fudd-dal nes y byddwch wedi llofnodi'r datganiad, a dychwelyd y ffurflen atom. Dychwelwch y ffurflen wedi'i llofnodi ar unwaith.

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Rwyf yn deall y gellir dwyn achos neu gamau eraill yn fy erbyn os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anwir yn fwriadol.

Rwyf yn deall bod yn rhaid i mi hysbysu'r swyddfa sy'n talu fy Lwfans Byw i'r Anabl ar unwaith am unrhyw beth a allai effeithio ar fy hawl i gael y budd-dal hwnnw, neu'r swm a gaf.

Rwyf yn deall y gallai'r Adran ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi ar hyn o bryd neu y gallai ei chael yn y dyfodol i benderfynu p'un a oes gennyf hawl i gael:

- y budd-dal yr wyf yn gwneud cais amdano,
- unrhyw fudd-dal arall yr wyf wedi gwneud cais amdano,
- unrhyw fudd-dal arall y gallaf wneud cais amdano yn y dyfodol.

Dyma fy nghais am Lwfans Gweini.

Llofnod

Dyddiad

/ /

Printiwch eich enw yma

A ydych wedi llofnodi cwestiwn caniatâd 16 ar y ffurflen gais hon ac wedi rhoi'r dyddiad arno?

i I gael gwybodaeth am sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth, gweler tudalen 10 o'r **nodiadau**.

Beth i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol i chi neu'r person rydych yn gwneud cais ar ei ran. Sicrhewch eich bod wedi llofnodi'r cwestiwn caniatâd 16 a'r datganiad yng nghwestiwn 46.

Anfonwch y ffurflen gais i'r swyddfa sy'n delio gyda'r ardal ple rdych yn byw. (gwelwch **Ple i anfon y ffurflen wedi'i chwblhau** ar y dudalen olaf).

Rhestrwch yr holl ddogfennau rydych yn eu hanfon gyda'r ffurflen gais hon isod. Er enghraifft, rhestr bresgripsiwn, adroddiad meddygol, neu gynllun gofal.

i I gael cymorth a chyngor ar fudd-daliadau eraill, gweler tudalen 11 o'r **nodiadau**.

Enw

Rhif Yswiriant Gwladol

Lle i anfon y ffurflen wedi ei chwblhau

Anfonwch y ffurflen wedi ei chwblhau i'r swyddfa sydd agosaf i lle rydych yn byw.

1. Disability Benefits Centre
PO Box 30
Chester
CH70 8AN

2. Disability Benefits Centre
PO Box 35
Bristol
BS80 8AJ

3. Attendance Allowance Team
Palatine House
Preston
PR1 1HB

4. Disability Benefits Centre
PO Box 37
Glasgow
G90 8AS

5. Disability Benefits Centre
PO Box 33
Leeds
LS88 8AF

6. Attendance Allowance Team
Palatine House
Preston
PR1 1HB

7. Disability Benefits Centre
PO Box 34
Birmingham
B99 1AR

8. Attendance Allowance Team
Palatine House
Preston
PR1 1HB

9. Disability Contact and Processing Unit
Government Buildings
Warbreck House
Warbreck Hill
Blackpool
FY2 0YJ

10. Disability Benefits Centre
PO Box 36
Cardiff
CF91 5AT

11. Disability Benefits Centre
PO Box 31
London
SW95 9BD

Os ydych yn parhau i fod yn ansicr lle i anfon y ffurflen

Ffoniwch y Llinell Ymholiadau budd-daliadau (BEL). Y rhif yw **0800 88 22 00**.
Ffôn testun 0800 24 33 55 (ar gyfer pobl gyda problemau lleferydd neu glyw).

Ar gyfer ceisiadau anabledd cyfredol

Gallwch gysylltu â:

Blackpool Disability Contact and Processing Unit
Disability Contact and Processing Unit
Government Buildings
Warbreck House
Warbreck Hill
Blackpool
Lancashire FY2 OYJ
Ffôn: **08457 123456**
Ffacs: **01253 331 266**
E-bost: **DCPU.Customer-Services@dwp.gsi.gov.uk**